**Y Gwir Anrh/Rt Hon Carwyn Jones AC/AM**
**Prif Weinidog Cymru/First Minister of Wales**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Christine Chapman AC
Cadair
Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol
Cynulliad Cenedlaethol
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

19 Tachwedd 2014

Annwyl Christine

**Cynigion cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru, 2015-16**

Ysgrifennaf atoch fel ymateb i'ch llythyr dyddiedig 29 Hydref sy'n cynnwys manylion pwyntiau a godwyd gan y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol yn dilyn y cyfarfod y bûm i'n bresennol ynddo ar 23 Hydref 2014.

Rwy'n ymateb i'r materion a godwyd yn y drefn y maent yn ymddangos yn eich llythyr.

**1. Ailflaenoriaethu cyllidebau**

Roeddech yn gofyn am wybodaeth fanylach am y dystiolaeth a ddefnyddiwyd i ail-flaenoriaethu cyllidebau ar gyfer y Gymraeg. Cafodd datganiad polisi Bwrw Mlaen ei ddylanwadu gan y datblygiadau a ddaeth yn sgil cyhoeddi ein strategaeth Iaith Fyw: Iaith Byw yn 2012. Fel y dywedais pan ymddangosais gerbron y Pwyllgor, cafodd y dystiolaeth a gasglwyd cyn Y Gynhadledd Fawr, ac yn ystod y gynhadledd honno, ei hystyried wrth wneud penderfyniadau. Cawsom lawer iawn o adborth gwerthfawr yn sgil cynnal y digwyddiad hwn yn ogystal â'r fforwm a'r gweithgareddau a gynhaliwyd ymlaen llaw, a hynny gan unigolion sy'n uniongyrchol gyfrifol am gynllunio ieithyddol ond hefyd gan unigolion sy'n defnyddio'r iaith ac sydd am ei gweld yn ffynnu yn y dyfodol.

Cafodd llawer iawn o dystiolaeth ei chasglu yn ystod y cyfnod yn arwain at Y Gynhadledd Fawr, mewn gweithgareddau a gynhaliwyd rhwng mis Mai a mis Mehefin 2013 i gasglu barn y cyhoedd. Roedd y dystiolaeth honno yn cynnwys sylwadau gan:

- Dros 400 o bobl a fynychodd 21 o grwpiau trafod lleol ledled Cymru
- Dros ddwy fil o unigolion a ymatebodd i arolwg ar-lein
- Dros 160 o westeion yn Y Gynhadledd Fawr yn Aberystwyth ar 4 Gorffennaf 2013 a oedd yn cynrychioli trawstoriad cyffredinol o wahanol fuddiannau a rhanddeiliad.

Prif negeseuon Y Gynhadledd Fawr oedd yr angen i: weithredu'n fwriadus i gryfhau'r cysylltiad rhwng yr economi a'r iaith; sicrhau ein bod yn adeiladu ar y llwyddiannau yn y system addysg; gwella'r ddarpariaeth addysgu Cymraeg mewn ysgolion Saesneg; cryfhau'r cyswllt rhwng ysgolion, y gymuned a'r gweithle; a hyrwyddo gwerth y Gymraeg er mwyn codi ei statws yn gymdeithasol ac yn y gweithle. Yn fy marn i, mae Bwrw Mlaen yn ein rhoi ni ar y trywydd cywir i fynd i'r afael â'r materion hyn.

Cafodd gwybodaeth am y ffactorau sy'n dylanwadu ar ymddygiadau siaradwyr Cymraeg, a chanfyddiadau pobl o'r iaith, ei chasglu drwy ymchwil a gomisiynwyd ar y cyd gan Lywodraeth

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0845 010 3300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0845 010 4400
Ffacs * Fax 029 2082 1879
YP.PrifWeinidog@cymru.gsi.gov.uk •
ps.firstminister@wales.gsi.gov.uk

Cymru, S4C a BBC Cymru a'i chyhoeddi gan Beaufort Research ym mis Awst 2013 (*Ymchwilio i ddefnydd iaith siaradwyr Cymraeg yn eu bywyd bob dydd*). Byddai mwyafrif y rheini a holwyd fel rhan o'r astudiaeth honno yn croesawu'r cyfle i wneud mwy drwy gyfrwng y Gymraeg, ac roedd diffyg hyder unigolion i ddefnyddio'r Gymraeg a'u pryder o gael eu beirniadu (a oedd yn ddi-sail ar y cyfan) yn cael eu hystyried fel rhwystrau.

Mae'r Adolygiad o Waith y Mentrau Iaith, Cynlluniau Gweithredu Iaith a Chynllun Hybu'r Gymraeg Aman Tawe (Ionawr 2014), a gynhaliwyd gan Brifysgol Caerdydd ar ran Llywodraeth Cymru, yn cynnig cyfres o argymhellion sydd wedi dylanwadu ar rai o'r blaenoriaethau a geir yn Bwrw Mlaen. Mae'r blaenoriaethau hynny yn cynnwys rhai sy'n ymwneud â datblygu dull mwy holistaidd o fynd ati i gynllunio ieithyddol a datblygu cymunedol.

Cyhoeddwyd amryw o adroddiadau ac adolygiadau polisi yn ystod y flwyddyn a hanner ddiwethaf, sy'n cynnwys:

Cyhoeddi adolygiadau o bolisïau ar:
- Gymunedau Cymraeg eu hiaith
- Datblygu Economaidd a'r Gymraeg
- Addysgu Cymraeg fel ail iaith
- Cymraeg i Oedolion
- yr Eisteddfod Genedlaethol.

Cafodd y dystiolaeth hon, yn ogystal â chyngor gan swyddogion ac ymarferwyr sydd â phrofiad yn y maes, eu defnyddio i lywio'r gwaith o ddrafftio Bwrw Mlaen a'r gwaith o ailflaenoriaethu cyllidebau yn dilyn hynny.

O ran yr amserlenni, mae'r ffocws yn Bwrw Mlaen ar gyflawni dros gyfnod o 3 blynedd. Bydd hynny yn dod â ni at ddiwedd oes Iaith Byw: Iaith Fyw, ein strategaeth ar gyfer y Gymraeg. Caiff cynllun gweithredu blynyddol ac adroddiad blynyddol ar gyfer 2015-16 eu cyhoeddi maes o law, yn unol ag adran 78 o Ddeddf Llywodraeth Cymru.

Bydd y rhaglen ymchwil a gwerthuso arfaethedig, fel y'i hamlinellir yn Fframwaith Gwerthuso Strategaeth y Gymraeg (Chwefror 2013), yn ystyried pa mor effeithiol y mae Llywodraeth Cymru yn gweithredu rhai o'r elfennau sydd wedi'u cynnwys yn Bwrw Mlaen. Mae astudiaeth ymchwil wedi'i chynllunio i wella ein dealltwriaeth o'r ffactorau sy'n hwyluso ffyniant ieithyddol yn y gymuned yn flaenoriaeth ar gyfer 2014-15. Bydd astudiaethau pellach yn cael eu cynnal yn flynyddoedd i ddod, wrth i gyllid ar gyfer gweithgarwch ymchwil gael ei ystyried ymhellach yng nghyd-destun ymrwymiadau ehangach.

Bydd data hefyd yn ymddangos ar y defnydd o'r Gymraeg mewn amgylchiadau ffurfiol ac anffurfiol, yn deillio o Arolwg Defnydd Iaith Gymraeg 2013-15 a gomisiynwyd ar y cyd gan Lywodraeth Cymru a Chomisiynydd y Gymraeg. Bydd yr wybodaeth hon yn rhan o'n hasesiad o effeithiolrwydd yr ymyriadau polisi a gynlluniwyd i hwyluso defnyddio'r Gymraeg. Disgwylir i ddata blwyddyn gyntaf yr Arolwg gael eu cyhoeddi cyn hir.

**2. Y Gymraeg mewn cyllidebau prif ffrwd a 3. Asesiadau Effaith**
Mae Llywodraeth Cymru yn datblygu rhaglen ar hyn o bryd ar gyfer prif ffrydio'r Gymraeg mewn gwerthuso ac ymchwil ar draws meysydd polisi. Mae hyn yn cynnwys asesiad o effeithiolrwydd rhaglenni o ran mynd i'r afael ag anghenion neu flaenoriaethau iaith Gymraeg penodol (er enghraifft, drwy werthuso'r rhaglen Cymunedau yn Gyntaf, y gallu o ran sgiliau iaith Gymraeg a'r defnydd o'r Gymraeg mewn rhaglenni a ariennir gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop). Y bwriad yw y bydd yr hyn a ganfyddir wrth werthuso fel hyn, ac yn sgil gwaith gwerthuso arall, yn llywio ein dealltwriaeth o sut, ac i ba raddau, y bydd ein hymyriadau a'n rhaglenni yn effeithio ar y Gymraeg.

Datblygwyd asesiadau o'r effaith ar y Gymraeg yn ddiweddar a fydd yn sicrhau bod sefyllfa'r Gymraeg yn cael ei hystyried wrth wneud penderfyniadau cyllidebol a bydd hynny, yn ei dro, yn ein helpu i nodi gwariant ar y Gymraeg mewn cyllidebau nad ydynt yn uniongyrchol gysylltiedig â'r iaith.

Y llynedd, amlinellwyd ein bwriad i barhau ar ein taith gwella drwy symud tuag at ddull mwy integredig o asesu effaith y Gyllideb hon. I'r perwyl hwn, rydym wedi cymryd rhai camau pwysig eleni wrth baratoi'r Asesiad Effaith Integredig Strategol (AEIS) i ystyried nid yn unig cydraddoldeb ac anfantais economaidd-gymdeithasol, ond hefyd yn edrych ar hawl plant a'r iaith Gymraeg. Ystyriwyd pob Gweinidog effaith eu penderfyniadau gwariant ar yr iaith Gymraeg ac mae'r AEIS yn rhoi adroddiad clir o benderfyniadau allweddol y Llywodraeth. Wrth ddatblygu ein cynlluniau gyllideb yn y dyfodol, byddwn yn edrych yn ofalus ar ffyrdd y gallwn wella'r wybodaeth hon ymhellach, gan gynnwys ystyried yn ofalus yr adborth derbyniwyd trwy sesiynau graffu eleni a thrafodaethau parhaus yn y Grŵp Cynghori ar y Gyllideb ar Gydraddoldeb.

Fel y dywedais wrth y Pwyllgor, o 2015-16, yn unol â'r dyletswyddau a osodir maes o law o dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011, wrth wneud penderfyniadau polisi, bydd yn ofyniad statudol i ystyried yr effaith ar y Gymraeg yn ogystal â mynd ati'n weithredol i hybu a hwyluso'r defnyddio'r Gymraeg. Mae gwaith ar y gweill ers amser i baratoi ar gyfer gweithredu'r Safonau Iaith arfaethedig newydd.

**4. Safonau'r Gymraeg**

Rwyf wedi nodi'r pwynt a godwyd ynghylch ystyried y costau a fydd yn codi wrth gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg. Bydd rhaid i sefydliadau sy'n gorfod cydymffurfio â'r Safonau dalu'r costau cysylltiedig o'u cyllidebau prif ffrwd. Dyma'r rhagdybiaeth a wnaed mewn perthynas â chydymffurfio â Chynlluniau Iaith Gymraeg yn ystod hynt Deddf yr iaith Gymraeg 1993 drwy'r Senedd.

Nid yw gwaith datblygu polisi yn dod i ben yn ystod cyfnod o ddirywiad economaidd. Rhaid i ni weithredu nawr a gweithio gyda'n partneriaid ym mhob sector i ddiogelu'r Gymraeg ar gyfer y cenedlaethau sydd i ddod. Mae cymryd camau i ddiogelu'r Gymraeg ac i hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg yn parhau'n flaenoriaeth bwysig.

Cyhoeddom ymgynghoriad ar y Rheoliadau i wneud safonau ar 7 Tachwedd 2014. Byddwn yn ystyried pob sylw yn fanwl, a byddwn yn adlewyrchu'r sylwadau a gafwyd ynghylch costau gweithredu wrth ddiweddaru'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol (RIA). Bydd y RIA wedi'i ddiweddaru, gan gynnwys tystiolaeth wedi ei chasglu trwy ymgynghoriad ar y safonau arfaethedig yn ystod Gwanwyn 2014, yn cael ei gyhoeddi yn y Memorandwm Esboniadol a fydd yn cyd-fynd â'r Rheoliadau pan gânt eu cyflwyno gerbron y Cynulliad ym mis Mawrth 2015.

O ran yr effeithiau disgwyliedig, cafodd y Safonau eu drafftio gyda'r nod o:

- wella'r gwasanaethau y gall siaradwyr Cymraeg ddisgwyl eu derbyn gan sefydliadau yn Gymraeg
- cynyddu'r defnydd a wneir o wasanaethau Cymraeg
- ei gwneud yn eglur i sefydliadau beth sydd angen iddynt ei wneud mewn perthynas â'r Gymraeg
- sicrhau bod lefel briodol o gysondeb o ran dyletswyddau a osodir ar gyrff yn yr un sectorau.

Gallwn ddisgwyl i sefydliadau gynnig a darparu Gwasanaethau Cymraeg i'r cyhoedd mewn ffordd fwy cydlynol a threfnus. Disgwylir y bydd y galw am wasanaethau Cymraeg yn cynyddu yn sgil gweithredu'r Safonau yn llwyddiannus, wrth i hyder y cyhoedd yng ngallu sefydliad i ddelio â phob math o wasanaeth gynyddu. Bydd hefyd modd gorfodi'r Safonau mewn ffordd nad oedd yn bosibl ei wneud gyda'r Cynlluniau Iaith, gan osod cosbau am beidio â chydymffurfio.

**5. Cyllideb Comisiynydd y Gymraeg**

Cafodd dyrannu cyllideb Comisiynydd y Gymraeg ei drafod yn helaeth yn ystod hynt y Mesur drwy Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Gan mai Prif Weinidog Cymru sy'n penodi Comisiynydd y Gymraeg, mae'n dilyn mai Llywodraeth Cymru ddylai gyllido'r Comisiynydd. Mae'r Mesur yn gosod dyletswydd ar y Comisiynydd i baratoi amcangyfrif o incwm a chostau swyddfa'r Comisiynydd ar gyfer pob blwyddyn ariannol (ar wahân i'r un gyntaf) a chyflwyno'r amcangyfrif i Weinidogion Cymru. Rhaid i Weinidogion Cymru, yn eu tro, archwilio'r amcangyfrif a gyflwynir iddynt a gosod yr amcangyfrif hwnnw gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Bydd hyn yn sicrhau tryloywder yn y modd y bydd Llywodraeth Cymru yn cyllido swyddfa'r Comisiynydd.

Mae'r Mesur yn gorchymyn hefyd, mewn perthynas â'i statws, wrth arfer swyddogaethau mewn perthynas â'r Comisiynydd, bod rhaid i Weinidogion Cymru roi ystyriaeth i'r ffaith ei bod yn ddymunol sicrhau bod y Comisiynydd o dan gyn lleied o gyfyngiadau ag y bo'n rhesymol bosibl wrth iddi benderfynu ar ei gweithgareddau, ei hamserlenni ac ar ei blaenoriaethau.

Mae Comisiynydd Plant Cymru a Chomisiynydd Pobl Hŷn Cymru hefyd yn cael eu cyllido fel hyn.

O safbwynt cyflwyno'r Adroddiad Blynyddol, gan fod Llywodraeth Cymru yn rhan o'r ymchwiliad i Safonau'r Comisiynydd, cafodd wybodaeth fanwl ei darparu iddi. Cyfarfu Swyddogion â'r Comisiynydd ar 9 Hydref i drafod yr adroddiad. Mae'r drafft presennol o Safonau'r Gymraeg yn rhagnodi dyddiad penodol ar gyfer cyflwyno adroddiadau blynyddol yn y dyfodol.

**6. Cyllideb y Gymraeg mewn Addysg**

Mae gostyngiad cyffredinol o £0.6 miliwn yng nghyllideb y Gymraeg mewn Addysg yn 2015-16, yn bennaf o ganlyniad i ostyngiad o £500,000 i'r Grant Cymraeg mewn Addysg. Mae'r £100,000 sy'n weddill yn cynnwys toriadau bach i gyllidebau comisiynu adnoddau, cynllunio ac ymchwil, a chyfathrebu a marchnata yn y Llinell Wariant yn y Gyllideb ar gyfer Cymraeg mewn Addysg. Mae'r £5.13 miliwn sy'n weddill a ddyrannwyd i'r Grant Cymraeg mewn Addysg yn cael ei drosglwyddo o'r Llinell Wariant yn y Gyllideb ar gyfer Cymraeg mewn Addysg i Safonau Addysg fel rhan o'r broses o sefydlu'r Grant Gwella Addysg/Ysgolion arfaethedig; mae amryw o grantiau yn cael eu cyfuno, gyda'r nod o ddarparu un ffrwd gyllido wedi'i symleiddio, a fydd yn canolbwyntio ar ddeilliannau, ar gyfer ysgolion gwerth mwy na £140 miliwn ar gyfer 2015-16. Bydd gweithgareddau sy'n cael eu cyllido drwy'r Grant Cymraeg mewn Addysg ar hyn o bryd yn cael eu cynnig o hyd fel rhan o raglen weithgareddau ehangach. Codi safon addysgu a dysgu'r Gymraeg yw un o ganlyniadau allweddol y grant newydd. Byddwn yn craffu ar gynlluniau gwario'r grant i sicrhau na fydd ei sefydlu yn cael effaith andwyol ar y cymorth sydd ar gael i ysgolion.

Mae'n bwysig nodi mai un rhan yn unig o'r cymorth a gynigir gan Lywodraeth Cymru i weithredu'r Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg yw'r Grant Cymraeg mewn Addysg (£5.63 miliwn yn 2014-15) a'r cyfraniad a wneir yn y dyfodol drwy'r Grant Gwella Addysg/Ysgolion. Mae llawer o weithgareddau a gyllidir drwy'r hyn sy'n weddill o'r Llinell Wariant yn y Gyllideb ar gyfer Cymraeg mewn Addysg (£18.599 miliwn yn 2015-16), yn ogystal â gweithgareddau di-rif eraill sydd wedi'u prif ffrydio ar draws yr Adran Addysg a Sgiliau, oll yn cyfrannu at gyflawni'r Strategaeth. Er ei bod hi'n bosibl y gallai'r newidiadau a amlinellir uchod gael effaith ar rai gweithgareddau, o ystyried y gwariant cyffredinol, ystyrir mai bach iawn ydynt.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ei gwneud yn ofynnol i roi sylw yn benodol mewn Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg i brosesau cynllunio a, lle bo hynny'n briodol, arolygon o alw rhieni am addysg cyfrwng Cymraeg. O dan Reoliadau Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg ac Asesu'r Galw am Addysg Cyfrwng Cymraeg (Cymru) 2013, mae gan Weinidogion Cymru bwerau i'w gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol, mewn rhai amodau rhagnodedig, gynnal asesiad addysg cyfrwng Cymraeg. Mae'r Rheoliadau hefyd yn gosod y cwestiynau a'r wybodaeth ategol y mae'n rhaid eu cynnwys mewn asesiad o'r fath. Mae'n ofynnol i awdurdodau lleol adolygu eu Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg yn flynyddol. Bydd y Gweinidogion yn ystyried y Cynlluniau diwygiedig a fydd yn deillio o'r broses adolygu ac yn penderfynu a ddylid defnyddio'r pwerau i'w gwneud yn ofynnol i gynnal asesiad addysg cyfrwng Cymraeg, ac os hynny, sut y dylid gwneud hyn.

Asesir pa mor effeithiol y bydd Llywodraeth Cymru wedi cyflawni canlyniadau Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg yn ôl ei pherfformiad yn erbyn dangosyddion canlyniad y Rhaglen Lywodraethu ar gyfer y Gymraeg ('Canran y disgyblion sy'n 5 oed ar ddechrau'r flwyddyn academaidd sy'n siarad Cymraeg yn rhugl gartref' a 'Canran y bobl sy'n gallu siarad, darllen ac ysgrifennu'r Gymraeg').

**7. Y Bil Cynllunio (Cymru)**

Dim ond ym Mis Mehefin y cafodd y Canllaw Ymarferol i gefnogi Nodyn Cyngor Technegol 20 ei gyhoeddi, felly mae hi dal yn gynnar i fesur i ba raddau y mae'n cael ei ddefnyddio gan Awdurdodau Lleol ar hyn o bryd. Ym mis Gorffennaf eleni, cynhaliwyd digwyddiad i rannu gwybodaeth am y Canllaw. Roedd cynrychiolaeth dda o awdurdodau lleol ledled Cymru yn y digwyddiad hwnnw, felly rydym yn gwybod eu bod yn ymwybodol o'r Canllaw. Drwy graffu'n rheolaidd ar Gynlluniau Datblygu

Lleol, byddwn yn parhau i geisio sicrhau bod y Cynlluniau yn seiliedig ar dystiolaeth gadarn, gan gynnwys Canllaw Ymarferol TAN 20.

Rwyf i o'r farn bod y polisi presennol, fel y'i hamlinellir ym Mholisi Cynllunio Cymru a TAN 20 yn cynnig fframwaith cadarn ar gyfer ystyried y Gymraeg yn y system gynllunio. Mae ein polisi yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Cynllunio Lleol gynnal asesiad o bwysigrwydd yr iaith ar ddechrau'r broses gynllunio a sicrhau, lle y bo tystiolaeth i gefnogi hynny, bod yr iaith yn dod yn rhan anhepgor o'r Cynllun Datblygu Lleol. Drwy fabwysiadu dull strategol o ystyried cynllunio a'r Gymraeg, gall Cynlluniau Datblygu Lleol siapio datblygiad eu hardaloedd yn y dyfodol i gefnogi'r iaith. Mae'r Arolygiaeth Gynllunio yn ymwybodol o bolisi Llywodraeth Cymru ac yn ei gymhwyso yn ôl yr angen wrth ystyried Cynlluniau Datblygu Lleol neu apeliadau Cynllunio.

Yn gywir



**CARWYN JONES**